funded by

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Gorff/Awst 2006

Hwyrach eich bod yn meddwl—beth yw Cymunedau'n Gyntaf Oldford???

Mae Cymunedau'n Gyntaf Oldford yma ers dros dair blynedd bellach, ac rydym yn awyddus i weld mwy o bobl yn rhan o'r cynllun. Hwyrach eich bod chi'n meddwl 'beth yw Cymunedau'n Gyntaf?' Cynllun gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw, gyda'r nod o wella bywydau pobl. Rydym yn awyddus iawn i weld pobl leol sydd am wneud gwahaniaeth gwirioneddol i Oldford, yn cyfrannu. Mae'n fwriad gennym i wneud nifer o bethau, gan gynnwys meithrin hyder ymysg pobl leol a gwneud Oldford yn lle diogel i fyw, gweithio a chwarae.

Byddwn yn hwyluso ychydig o ddigwyddiadau, a byddem wrth ein bodd yn gweld chi'n rhan ohonynt! Byddem hefyd yn hoffi eich hysbysu am ein cyfarfodydd Partneriaeith, sy'n cael eu cynnal yn fisol—mae croeso i chi eu mynychu.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Mercher 19eg Gorffennat yn y Ganolfan Fenter, Y Stryd Lydan, Y Trallwng am 9.30yb.

Newyddion am ddigwyddiad sydd ar y gweill…

'Diwrnod Tacluso Oldford' – **29ain Gorffennaf 2006!** – Dewch draw i gael pethau am ddim fydd yn gallu arbed arian i chi a helpu'r amgylchedd! Gwyliwch allan am fwy o newyddion!!

Dyma fanylion un o'r digwyddiadau a gynhaliwyd ar Oldford a drefnwyd dros y misoedd diwethaf gyda chyfraniad gennym ni…

Diwrnod Chwarae Amgylchedd y Byd

Ddydd Mawrth, 30ain Mai—daeth dros 30 o blant i ymuno mewn Diwrnod o Chwarae Agored a gynhaliwyd ar Oldford. Trefnwyd llu o weithgareddau hwyl, a chafodd pawb amser gwych.

Prynhawn Coffi Masnach Deg

Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn Ysgol Babanod Oldford, a daeth pobl draw am baned o de neu goffi Masnach Deg a bisgedi a chacenni am ddim. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, roedd gennym syniad o'r hyn fyddech chi'n hoffi gweld yn digwydd ar 'Ddiwrnod Tacluso Oldford'.

Diolch i bawb oedd yn bresennol a llongyfarchiadau Ethel ar ennill y raffl, sef potel o win Masnach Deg a bisgedi siocled 'Fairtrade' hefyd!

Byddwch chi'n mynd i siopa ac yna sylweddoli nad oes gennych ddarn £1 ar gyfer y troli. Wel, gyda lwc mae'r dyddiau yna wedi hen ddiflannu!
Mae **Cymunedau'n Gyntaf Oldford** wedi cynnwys torch allwedd 'Punt am Fywyd' (am ddim) gyda'r cylchlythyr hwn. Enw arall arno yw'r disg troli—ni fydd angen i chi chwilio am ddarn £1 byth eto! Trwy gysylltu'r torch allwedd at eich allweddi chi, pan fydd angen darn £1 arnoch, tynnwch y disg a'i osod yn eich troli siopa, y blwch dillad yn y gampfa etc.
Ar ôl gorffen, tynnwch y disg a'i gysylltu nôl efo'r allweddi, yn barod i'w ddefnyddio'r tro nesaf!

Yn y rhifyn hwn:

Cymunedau'n Gyntaf 1
Dyddiadau cau

Get Going Gang 2
Gallwch chi helpu??

Diwrnod Hwyl Oldford 3

Cwrs Cyfrifiadurol am ddim 4
Tyfu Llysiau

Ailgylchu 5
Clytiau go iawn

Cyfleoedd hyfforddiant 6
Enillydd cystadleuaeth
Pen-blwydd

Oes gan unrhyw un **drelar** gallwn ei ddefnyddio/benthyg ar gyfer 29 Gorffennaf i dacluso'r ystâd?? Os oes gan unrhyw un defnydd o drelar sy'n fodlon inni ei fenthyg , a wnewch chi adael inni wybod cyn gynted â phosib—556648 **Diolch**

Dyddiadau cau Llais Oldford:

- 25 Awst 2006
- 20 Hydref 2006
- 1 Rhagfyr 2006

Get Going Gang

Eleni bydd y Get Going Gang yn cael ei redeg o'r **Caban Sgowtiaid** yn lle Maes-y-dre; bydd y cynllun yn rhedeg o ddydd Mawrth 25 Gorffennaf hyd at ddydd Gwener 25 Awst o ddydd Llun i ddydd Gwener. Byddwn ar agor o 10yb tan 3yp am £2.50 y dydd ar gyfer plant rhwng 4 a 15 oed. Bydd costau ychwanegol ar gyfer dyddiau tripiau, a bydd yr amseroedd hefyd yn wahanol—byddwn yn hysbysebu'r rhain ymlaen llaw er gwybodaeth i chi, a bydd costau ychwanegol hefyd ar gyfer gweithdai a'r sinema. Byddwn yn gweithio ar sail cyntaf i'r felin, does dim angen archebu lle ymlaen llaw, ac mae 50 o lefydd ar gael bob dydd. Rydym yn mynnu fod rhiant/gofalwr neu oedolyn sydd â chyfrifoldeb yn dod gyda'r plentyn ar y diwrnod cyntaf i lenwi ffurflenni cofrestru—ni fyddwn yn gallu derbyn plentyn heb gael y ffurflenni hyn wedi'u llenwi a'u llofnodi gan oedolyn sydd â chyfrifoldeb am y plentyn.

Ymysg y gweithgareddau – tripiau ac ymweliadau, sinema, gweithdai proffesiynol, celf a chrefft, chwaraeon a gemau, gwisg ffansi, carioci, helfa drysor a llawer llawer mwy.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â phlant newydd yn ogystal â rhai cyfarwydd yn ystod gwyliau'r haf.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Liz ar 01938 555269

LLONGYFARCHIADAU !!!

Cafodd Liz Gannon ei henwebu gan Sian Parry un o drigolion Oldford, ar gyfer gwobr 'Cyrhaeddiad Eithriadol mewn Cyfranogaeth'. Roedd gwobrwyon TPAS Cymru ar agor i Gymru gyfan, ac enillodd Liz Gannon y wobr gyntaf am ei holl waith gwirfoddol yn y gymuned.

Llongyfarchiadau Liz ar eich llwyddiant ysgubol.

GALLWCH CHI HELPU???

Mae angen GWIRFODDOLWYR arnom!!!

Hoffech chi gymryd rhan mewn **HYFFORDDIANT CODI A CHARIO AM DDIM?**

Bydd yr hyfforddiant ar gael yn y dyfodol agos, ac yn parhau am un noson yn unig.

Cewch dystysgrif Hyfforddiant Codi a Chario ar y diwedd.

Mae angen gwirfoddolwyr i helpu gyda'r 'Diwrnod Tacluso Oldford' i wneud nifer o bethau'n amrywiol o gasglu sbwriel i eitemau eraill a'u rhoi nhw mewn sgip. Cysylltwch â ni ar 556648 os hoffech helpu mewn unrhyw ffordd, a gwyliwch allan am fwy o wybodaeth!

DIWRNOD O HWYL OLDFORD—DYDD SUL 30 GORFF

Os byw ac iach—cewch ddod i ymuno yn yr hwyl ar ystâd Oldford yng Nghwrt Powis a Sgwâr Heulwen ar ddydd Sul 30 Gorffennaf (tywydd yn caniatáu) 11yb – 4yp.

Y gobaith yw cynnal cystadleuaeth pêl-droed 5 bob ochr, barbiciw, castell gwynt, tom bola, paentio wynebau, raffl, stociau, cystadleuaeth gwneud cacen, stondin gacennau, carioci 1yp-3yp,

digwyddiad noddedig i eistedd mewn twb o gwstard, a stondinau amrywiol

gan denantiaid/trigolion Oldford am £3 yr un

a £5 ar gyfer stondinau eraill.



BYDDEN NHW HEFYD YN DDIOLCHGAR IAWN AM UNRHYW **RODDION** O WOBRAU I'R RAFFL, GWOBRAU TOMBOLA, A BWYD I'R BARBECIW…. E.E. SELSIG, BYRGERS, RHOLION, NIONOD, SAWS, SIARCOL

I GYNNIG BWYD, GWOBRAU NEU I HELPU MEWN UNRHYW FFORDD, CYSYLLTWCH Â LIZ AR 555269 NEU ELLEN AR 07704540983

FFURFLENNI I GYSTADLU YN Y PÊL-DROED 5 BOB OCHR HEFYD AR GAEL GAN LIZ AC ELLEN

ECDL – CWRS AM DDIM

Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd

Eisiau gwella'ch sgiliau cyfrifiadurol?

Cwrs trwy Ewrop gyfan yw'r ECDL, **sy'n addas i bobl sydd am wella eu sgiliau TG.**

Croeso i chi ymuno â'r cwrs ECDL sy'n rhedeg ar hyn o bryd.

Mae'n cael ei gynnal rhwng 12yp tan 3yp ar ddydd Iau yn Ystafell Gyfarfod yr Eglwys Gatholig.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, ffoniwch ni ar 556648 neu e-bostiwch jonest@powys.gov.uk

Mae'n anffurfiol iawn, a does dim rhaid i chi wneud yr holl fodiwlau—hwyrach eich bod chi am astudio un neu ddau ohonynt, ond os byddwch yn cwblhau'r holl fodiwlau, yna gallwch sefyll y prawf ECDL. Wedyn bydd gennych gymhwyster safonol trwy'r diwydiant sy'n ddilys trwy Ewrop, yn dangos eich gallu mewn sgiliau TGCh yn seiliedig ar waith.



Noder:

Rhif ffôn Cynllun Dodrefn Phoenix yw 01686 623336

Tyfu Llysiau yn y Gymuned

Ydych chi'n dda yn yr ardd?

Hoffech chi blannu ffrwythau a llysiau mewn potiau?

Maen nhw'n hawdd i'w plannu ac i ofalu amdanynt—gallwch dyfu perlysiau, moron, tatws, nionod, tomatos, mefus neu hyd yn oed india-corn. Does dim angen gardd fawr neu wely lysiau i dyfu eich bwyd eich hunan—byddai patio bach neu ardd yn gwneud y tro'n iawn.

Am fwy o wybodaeth ar sut i gymryd rhan, ffoniwch ni ar 556648 a chadwch eich llygaid ar agor am fwy o wybodaeth!!!

Mae'n ddelfrydol ar gyfer yr hen a'r ifanc—gall bawb gymryd rhan!!

Bagiau Ailgylchu

Ydych chi wedi rhedeg allan o fagiau ailgylchu? Oes angen mwy arnoch chi? Mae cyflenwad o fagiau ailgylchu yn Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf yn ysgol Oldford erbyn hyn. Croeso i chi alw yn y swyddfa i gasglu rhai os ydych yn ymweld â'r ysgol. Os hoffech drefnu inni ddod â rhai heibio'r tŷ i chi, cysylltwch â ni ar **556648 neu drwy ebostio jonest@powys.gov.uk**

Mae'n amser gwneud newid Go Iawn

Bydd angen newid clwt eich babi tua 2,000 o weithiau mewn blwyddyn

Meddyliwch – gall eich babi ddefnyddio 5,000 o glytiau parod cyn bydd yn defnyddio poti!!

Mae mwy a mwy o rieni'n gwrthod defnyddio clytiau parod, wrth iddynt sylweddoli fod clytiau cotwm yn ddewis mwy naturiol, haws i'w defnyddio a chost-effeithiol na chlytiau parod – a dydyn nhw ddim yn costio ffortiwn.

Mae clytiau go iawn yn:

Naturiol, hawdd i'w defnyddio, hawdd i'w golchi, cyfleus, rhatach ac yn hwyl! Mae dyluniadau a deunyddiau amrywiol ar gael. Gyda chymaint o ddewis o ran steil, 'di erioed wedi bod yn haws cael hyd i glwt sy'n addas i'ch babi a'ch poced. Mae llawer o gwmnïau clytiau go iawn yn cynnig pecynnau treialu i chi gael 'arbrofi cyn prynu' ac mae asiantau ar gael trwy Gymru i roi cyngor a chymorth ar glytiau go iawn.

Eisiau gwybod mwy?

Am fwy o wybodaeth ar glytiau cotwm cysylltwch â:

Desg Gymorth Cyngor Sir Powys – 0845 607 6060
Llinell Gyngor Clytiau Go Iawn Cymru Gynaliadwy 0845 456 2477
www.sustainablewales.org.uk

www.realnappies-wales.org.uk

Cyfleoedd Hyfforddi...

Trefnwyd wythnos o ddysgu i Deuluoedd lleol i'r Trallwng rhwng 31 Gorffennaf a 4 Awst yn Ysgol Babanod Oldford. Trwy gydol yr wythnos bydd cyrsiau celf a chrefft a TG ar gael. Mae'r gweithgareddau sy'n cynnwys paentio, canu, sgiliau syrcas, gwehyddu, dawnsio ac ati, yn cael eu trefnu gan adran Dysgu Gydol Oes CSP a Chyswllt Celf. Codir ffi o £5 y teulu, ac mae consesiynau ar gael. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sheela ar 01691 648044.

Beth am ddysgu sgil newydd a chychwyn busnes newydd?

Bydd rhaglen **Cymunedau'n Gyntaf** Oldford ac adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Powys yn trefnu gweithdai Crefft ar gyfer oedolion yn ystod gwyliau'r haf.

Os oes gennych unrhyw syniadau am yr hyn hoffech ei ddysgu neu os hoffech fwy o wybodaeth am y prosiect, croeso i chi ffonio Sheela ar 01691 648044 cyn dydd Gwener 14 Gorffennaf.

Bydd y gweithdai hyn yn gyfle delfrydol i ddysgu sgil newydd ac efallai cychwyn menter gymdeithasol leol yn Oldford. Bydd cyngor ar gychwyn busnes newydd hefyd ar gael.

Os oes angen trafod gofal plant, cofiwch gysylltu â ni ar 556648.

Os hoffech ddod i'r sesiynau, cysylltwch â Hannah ar 556648 neu Sheela ar 01691 648044

cyn dydd Gwener, 14 Gorffennaf



Dewiswyd yr enw "Emerald" yn ennillydd y gystadleuaeth i enwi'r Canolfan Integredig newydd i Blant yn Ysgol Oldford . Enillydd y tocyn llyfr oedd Jamie Dockerty.

"If you want to recapture your youth , just cut off his allowance".
AL BERNSTEIN

PEN-BLWYDD HAPUS I LAURA AR 14 GORFFENNAF
ODDI WRTH MAM, DAD, JAYNE, SHARON, SARAH A CARL
XXX